OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 311 (Cy.33)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*17 Chwefror 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*18 Chwefror 2009*
Yn dod i rym - -	*11 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009 sy'n dod i rym ar 11 Mawrth 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio rheoliad 1 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997

2. Yn y diffiniad o "NHS sight test fee" yn rheoliad 1(2) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**) —

(a) yn lle "£53.34" rhodder "£54.67"; a

(b) yn lle "£19.32" rhodder "£19.80".

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Chwefror 2009

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.